

Y RHWYDWAITH
YMCHWIL
IECHYD MEWN
YSGOLION



SCHOOL
HEALTH
RESEARCH
NETWORK

Welsh Network of Healthy School Schemes



Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Adroddiad ar Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2019/20 ar gyfer Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru

Hydref 2020

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Prifysgol Caerdydd

Cynnwys

1.	Casglu data a'r sampl	2
2.	Canfyddiadau	5
2.1	Cyd-destun iechyd a lles cyffredinol	5
2.2	Cynnwys myfyrwyr, rhieni a'r gymuned mewn iechyd a lles.....	11
2.3	Addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm	17
2.4	Gweithgarwch corfforol a chludiant egnïol	25
2.5	Bwyta'n iach.....	30
2.6	Tybaco, cyffuriau ac alcohol.....	38
2.7	Iechyd meddwl a lles meddyliol.....	41
2.8	Rhyw a pherthnasoedd	44
2.9	Darpariaeth gwasanaeth iechyd	48
2.10	Atodiad 2020.....	54
2.10a	Bwyd a choginio	54
2.10b	Cwricwlwm i Gymru 2022	58
	Atodiad.....	60

1. Casglu data a'r sampl

Cafodd Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2020 ei weinyddu gan Ipsos MORI ar ran Prifysgol Caerdydd. Fe'i cwblhawyd ar-lein gan ysgolion sy'n aelodau o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith) yng Nghymru. Gwnaed y gwaith maes rhwng 24 Ionawr a 6 Mawrth 2020.

Roedd 210 o ysgolion yn aelodau o'r Rhwydwaith yn 2020. Fodd bynnag, roedd gan dair ysgol ddau safle ar wahân, gyda myfyrwyr yn cadw at un safle yn unig. Gofynnwyd i'r ysgolion hyn lenwi Holiadur Amgylchedd yr Ysgol ar gyfer pob safle ar wahân. Fe wnaeth 167 o'r 213 o safleoedd ysgol (yn cynnwys rhai ysgolion annibynnol) gymryd rhan yn yr arolwg (78%), gyda 126 ohonynt yn ei lenwi'n llawn (75%) a 41 ohonynt yn ei lenwi'n rhannol (25%). Roedd y rhain yn cynrychioli 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru (gweler Tabl 1). Darparwyd y sampl o ysgolion uwchradd gan Brifysgol Caerdydd.

Yn y gorffennol, llenwyd Holiadur Amgylchedd yr Ysgol ar bapur. Symudwyd holiadur 2020 i fodd llenwi ar-lein. Oherwydd y newid hwn i'r modd, ychwanegwyd codau "Ddim yn gwybod", "Ddim yn berthnasol" a "Dychwelyd i'r cwestiwn maes o law" at yr holiadur; y nod oedd lleihau ansicrwydd ynghylch y rhesymau dros beidio ag ateb (ar fersiwn bapur yr holiadur, byddai'r cwestiynau hyn wedi cael eu gadael yn wag). Rydym wedi ceisio sicrhau bod modd cymharu'r canlyniadau a adroddir yma â chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol trwy drin yr ymatebion i'r codau hyn yn werthoedd coll trwy gydol ein dadansoddiad¹, ond dylid bod yn ofalus o hyd wrth gymharu'r canlyniadau hyn â blynyddoedd blaenorol. Mae tabl yn dangos rhifau'r ffigurau yn yr adroddiad hwn a'u rhifau ffigurau cyfatebol yn adroddiad 2018 (lle y bo'n berthnasol) i'w weld yn yr atodiad.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cadwyd ymatebion gan ysgolion hyd yn oed os cafodd yr holiadur ei lenwi'n rhannol yn unig. Rhoddir y sylfeini ar gyfer cwestiynau â siartiau o dan bob siart, ynghyd â disgrifiad o ba ysgolion atebodd y cwestiwn penodol hwnnw. Ar gyfer cwestiynau sydd heb siartiau, rhoddir y sylfeini mewn tabl ar ôl y crynodeb o ganfyddiadau ym mhob adran. Caiff safleoedd ysgol eu cyfrif ar wahân yn y sylfeini. Yn achos siartiau sy'n dangos Blynyddoedd 12 a 13, cafodd pob ysgol heb chweched dosbarth ei heithrio o'r sylfeini perthnasol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn. Nid oedd chweched dosbarth gan 52 o'r ysgolion a gymerodd ran. Dylai darllenwyr sy'n cymharu â data 2017/18 nodi bod ysgolion heb chweched dosbarth wedi'u cynnwys yn y sylfeini yn yr adroddiad blaenorol.

Caiff canrannau yn y testun ac yn y siartiau eu talgrynnu i'r cyfanrif agosaf. Lle nad yw canrannau cyfunol yn y testun neu'r siartiau yn cyfateb yn union i gyfanswm eu ffigurau unigol, gall hyn fod o ganlyniad i dalgrynnu. Mewn rhai siartiau, efallai na fydd ffigurau canran isel yn cael eu labelu er eglurder.

Mae'r ysgolion a gynhelir yn y sampl ($n = 160$) yn cynrychioli pob ysgol yng Nghymru o ran nifer a lefel y myfyrwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, gyda gwahaniaethau bach iawn rhwng yr ysgolion a lenwodd yr holiadur a'r ysgolion na wnaeth ei lenwi (gweler Tabl 2).

¹ Mewn nifer fach o achosion, caiff 'Ddim yn gwybod' a 'Ddim yn berthnasol' eu cynnwys yn y sylfaen; nodir ymhle mae hyn yn digwydd yn glir yn yr adroddiad

Tabl 1. Crynodeb ac aelodau'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn ôl Awdurdod Lleol a llenwi Holiadur Amgylchedd yr Ysgol

Awdurdod Lleol	Aelod o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Ysgolion uwchradd a 'phob oed')		
	Holiadur wedi'i lenwi (yn llawn)	Holiadur wedi'i lenwi (yn rhannol)	Ni atebodd yr holiadur
Abertawe	6	5	3
Blaenau Gwent	2	2	0
Bro Morgannwg	5	0	3
Caerdydd	9*	4	6
Caerffili	10	0	2
Casnewydd	5	1	3
Castell-nedd Port Talbot ^	8	1	0
Ceredigion	7	0	0
Conwy	6	0	1
Gwynedd	8	3	3
Merthyr Tudful	2	1	1
Pen-y-bont ar Ogwr	6	1*	3
Powys ^ ^	7	2	4
Rhondda Cynon Taf	7	7	3
Sir Ddinbych	4	1	3
Sir Fynwy	4*	0	1
Sir Gaerfyrddin	9**	3	2
Sir Benfro	4	3	1
Sir y Fflint	5	3	3
Torfaen	3	1	2
Wrecsam	5	2	2
Ynys Môn	4	1	0
Cyfanswm	126	41	46

* Yn cynnwys un ysgol sy'n codi ffioedd, ** Yn cynnwys dwy ysgol sy'n codi ffioedd, ^Yn cynnwys un ysgol â dau safle, gyda'r ddau safle'n cymryd rhan yn yr arolwg (yn llawn), ^ ^Yn cynnwys dwy ysgol â dau safle: cwblhaodd dau safle un o'r ysgolion hyn yr arolwg (yn llawn), ac yn achos yr ysgol arall, cymerodd un safle ran (gan lenwi rhan o'r arolwg)

Tabl 2. Hawl gymedrig i brydau ysgol am ddim a maint cymedrig yr ysgol (Data CYBLD 2020) mewn ysgolion a gynhelir a lenwodd Holiadur Amgylchedd yr Ysgol a'r ysgolion na wnaeth ei lenwi

	Wedi cymryd rhan yn yr arolwg (n = 160)	Heb gymryd rhan (n = 45)
Hawl i brydau ysgol am ddim (%)	16.8 (±8.4)	19.0 (±11.2)
Nifer y myfyrwyr ar y gofrestr	940 (±364)	924 (±351)

Sylwch: mae'r ysgol yr oedd un yn unig o'i safleoedd wedi llenwi'r holiadur (gweler Tabl 1) wedi'i chynnwys yn y tabl hwn fel ysgol a wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg

Glanhau data

Er bod symud yr arolwg i ddull casglu data ar-lein wedi lleihau faint o waith glanhau data yr oedd ei angen – yn wahanol i holiadur ar bapur, gellir cyfeirio cyfranogwyr at y cwestiynau y dylent eu hateb a gellir dilysu rhai o'u hatebion – roedd angen rhywfaint o waith glanhau data o hyd lle nad oedd ysgolion wedi darparu data dilys neu rhoddwyd atebion nad ystyriwyd eu bod yn gredadwy. Cafodd naw achos eu dileu lle nad oedd ysgolion wedi darparu data dilys (h.y. roeddent wedi dewis "dychwelyd i'r cwestiwn hwn maes o law" ar gyfer pob cwestiwn yr ymatebont iddynt). Yn ogystal, roedd dwy ysgol â rhai atebion isel iawn (<6 munud) yn C29 a C32 nad ystyriwyd eu bod yn gredadwy. Roedd y cwestiynau hyn yn gofyn sawl awr yr wythnos yr oeddent yn addysgu Addysg Personol a Chymdeithasol ac Addysg Gorfforol yn y cwricwlwm ffurfiol, felly er y posibilrwydd bod yr ymatebwyr wedi ateb mewn oriau yn hytrach na munudau, gallent hefyd fod wedi bod yn cyfeirio at nifer y gwersi yr wythnos hefyd. Felly, cofnodwyd bod data'r ddwy ysgol hyn "ar goll".

2. Canfyddiadau

2.1 Cyd-destun iechyd a lles cyffredinol

Crynodeb o ganfyddiadau


- Dwy **flaenoriaeth yr uwch dîm rheoli** a ddewiswyd amlaf oedd cyrhaeddiad addysgol (74%) ac iechyd meddwl ac emosiynol myfyrwyr (71%). Mae cyfran yr ysgolion a ddywedodd mai blaenoriaeth eu huwch dîm rheoli oedd cyrhaeddiad addysgol wedi gostwng ers y don flaenorol (74% o gymharu ag 85%) (gweler Ffigur 1).
- Roedd yr uwch dîm rheoli yn blaenoriaethu **iechyd a lles staff** yn hanner yr ysgolion (50%), sef cynnydd o gymharu â 28% yn 2015/16-2016/17 (gweler Ffigur 1). Dyma'r cynnydd mwyaf mewn pwyntiau canran ym mlaenoriaethau uwch reolwyr.
- Roedd gan bron i chwech o bob deg ysgol (56%) un **arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles**, gyda phump y cant yn unig o ysgolion yn dweud bod ganddynt arweinwyr ar wahân ar gyfer iechyd a lles.
- Mewn mwy na phedair o bob pum ysgol (84%) ag **un arweinydd strategol** ar gyfer iechyd a lles, uwch-reolwr oedd yr arweinydd, h.y. y pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol (gweler Ffigur 2).
- Roedd wyth o bob deg ysgol (80%) yn aelod o'u **Cynllun Ysgolion Iach Lleol**, ond dywedodd 11% arall nad oeddent yn gwybod p'un a oeddent yn rhan o'r cynllun ai peidio. O'r ysgolion hyn a oedd yn cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Iach Lleol, roedd y mwyafrif ohonynt (83%) wedi cael cyngor neu arweiniad gan y cynllun yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac roedd bron i dair o bob deg (29%) wedi cael Ymweliad Asesu Cam (gweler Ffigur 3). Roedd dros hanner yr ysgolion yn y cynllun (55%) yn gweithio tuag at Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, gyda 17% ohonynt eisoes wedi derbyn y Wobr. Roedd dros dri chwarter o ysgolion (77%) o'r farn bod eu haelodaeth o'r Cynllun Ysgolion Iach Lleol yn bwysig (gweler Ffigur 4).
- Roedd gan bron i dri chwarter o ysgolion (73%) **gynllun gweithredu neu dargedau ysgrifenedig ar iechyd a lles yn yr ysgol**. O'r rhain, roedd 91% wedi cynnwys eu cynllun gweithredu neu eu targedau yng Nghynllun Datblygu presennol yr Ysgol ac roedd 81% ohonynt wedi asesu'u cynnydd yn erbyn eu cynllun gweithredu neu'u targedau yn flynyddol o leiaf.
- Dywedodd pob ysgol eu bod wedi defnyddio o leiaf un **ffynhonnell ddata iechyd a lles** i ddiweddarau eu polisiâu a'u harferion ynghylch creu ysgol iach. Y ddwy ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd, ac a enwyd amlaf, oedd arolygon yr ysgol ei hun o fyfyrwyr (85%) ac adroddiad y Rhwydwaith ar Iechyd a Lles Myfyrwyr (83%) (gweler Ffigur 5).
- **Defnyddiwyd data iechyd a lles gan** grwpiau amrywiol yn yr ysgol, yn bennaf gan y timau gofal bugeiliol a lles (97%) a'r uwch dîm rheoli (93%). Roedd chwech o bob deg

(60%) yn rhannu data gyda'u cyngor ysgol neu grwpiau eraill llais y myfyriwr (gweler Ffigur 6).

- Roedd naw o bob deg ysgol (89%) **yn defnyddio data i** amlygu angen a gosod blaenoriaethau iechyd a lles, ac roedd wyth o bob deg (81%) ohonynt yn defnyddio data i gefnogi gwelliant yr ysgol (gweler Ffigur 7).
- Roedd defnyddio arferion adferol yn **ymagweddau ysgolion at ddisgyblu myfyrwyr** yn gyffredin (gweler Ffigur 8). Roedd bron i bedair o bob pum ysgol (79%) yn defnyddio ynysu i reoli ymddygiad myfyrwyr.

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)
C2 Oes gan eich ysgol un arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles myfyrwyr?	Pob ysgol a ymatebodd (163)
C4 A yw eich ysgol yn aelod o'i chynllun ysgolion iach lleol fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru?	Pob ysgol a ymatebodd, gan gynnwys y rhai a ddewisodd 'Ddim yn gwybod' (161)
C6 A yw'ch ysgol yn gweithio tuag at Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru ar hyn o bryd?	Pob ysgol sy'n aelod o'u Cynllun Ysgolion Iach Lleol (120)
C8 A oes gan eich ysgol gynllun gweithredu ysgrifenedig ar iechyd a lles yn yr ysgol neu dargedau iechyd a lles yn yr ysgol?	Pob ysgol a ymatebodd (153)
C9 A yw eich cynlluniau gweithredu neu dargedau yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol?	Pob ysgol sydd â chynllun gweithredu/targedau ysgrifenedig ar iechyd a lles yn yr ysgol (102)
C10 A yw'r Uwch Dîm Rheoli / Uwch Dîm Arwain yn gwneud asesiad ffurfiol o'r cynnydd o'i gymharu â'r cynllun gweithredu neu'r targedau?	Pob ysgol sydd â chynllun gweithredu/targedau ysgrifenedig ar iechyd a lles yn yr ysgol (108)
C14 A yw eich ysgol yn defnyddio dull ynysu i reoli ymddygiad disgyblion?	Pob ysgol a ymatebodd (162)


Ffig. 1 Blaenoriaethau'r uwch dîm rheoli



C1 Ym mlynnyddoedd ysgol 2017/18 a 2018/19, ar ba rai o'r meysydd canlynol y canolbwyntiodd yr uwch dîm rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (159). Gellid dewis uchafswm o bedwar opsiwn.


Ffig. 2 Rôl yr arweinydd iechyd a lles mewn ysgolion sydd ag un arweinydd strategol



C3 Os oes gennych chi un arweinydd neu nifer o arweinwyr iechyd a lles ysgol, beth yw rôl broffesiynol yr unigolyn neu unigolion sy'n arwain?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd ag un arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles yn yr ysgol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (80).


Ffig. 3 Gweithgareddau'r Cynllun Ysgolion Iach sydd wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf



C5 Pa rai o'r gweithgareddau Cynllun Ysgol Iach canlynol sydd wedi digwydd yn ystod blynnyddoedd ysgol 2017/18 a 2018/19?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n aelod o'u Cynllun Ysgolion Iach Lleol fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (125).


Ffig. 4 Pwysigrwydd aelodaeth o'r Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru i waith iechyd a lles



C7 Pa mor bwysig yw eich aelodaeth o'ch Cynllun Ysgolion Iach Lleol i waith iechyd a lles eich ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n aelod o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (126).


Ffig. 5 Ffynonellau data a ddefnyddir i ddiweddarau polisiâu ac arferion yr ysgol ynghylch iechyd



C11 Pa rai o'r ffynonellau canlynol o ddata iechyd a lles y mae eich ysgol yn eu defnyddio i ddiweddarau ei pholisiâu a'i harferion ar greu ysgol iach?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (163).

Ffig. 6 Defnyddwyr data iechyd a lles



C12 Pwy sy'n defnyddio'r data iechyd a lles?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n defnyddio data i ddiweddarau polisiâu ac arferion ynghylch greu ysgol iach, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (161).

% o ysgolion

Categori	% o ysgolion
Nodi angen a gosod blaenoriaethau	89%
Cynorthwyo â gwella'r ysgol	81%
Mesur effaith	60%
Cymharu ag ysgolion eraill	39%

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n defnyddio data i ddiweddarau polisïau ac arferion ynghylch creu ysgol iach, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (160).

Amser	Aml (%)	Weithiau (%)	Anaml (%)	Cwmwm (%)
Amser cytlch	20%	36%	16%	71%
Cynhadledd adferol	40%	43%	6%	90%
Cyfryngu rhwng cyfoedion	42%	31%	12%	85%
Arferion adferol eraill	52%	31%	5%	88%

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Amser cylich (157), Cynhadledd adferol (159), Cyfryngu rhwng cyfoedion (153), Arferion adferol eraill (144).

2.2 Cynnwys myfyrwyr, rhieni a'r gymuned mewn iechyd a lles


Crynodeb o ganfyddiadau

- O'r ysgolion hynny a wnaeth **gynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles**, roedd 49% ohonynt yn gwneud 'bob amser' neu 'gan amlaf' drwy ymgynghoriadau â'r cyngor ysgol, 35% ohonynt drwy ymgynghoriadau â grwpiau eraill llais y myfyriwr, a 29% ohonynt drwy ymgynghoriadau ehangach â myfyrwyr (gweler Ffigur 9; sylwch fod ffigurau'r canrannau wedi'u talgrynnu felly nid yw'r canrannau cyfunol o reidrwydd yn cyfateb i gyfanswm cyfrannau unigol). Yn gyfan gwbl, dywedodd dros hanner yr ysgolion (56%) eu bod yn cynnwys myfyrwyr bob amser neu gan amlaf drwy o leiaf un o'r dulliau hyn.
- **Roedd myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn fwyaf cyffredin mewn datblygu polisi yn ystod cam** rhoi sylwadau ar bolisi drafft (68%), cynnig polisi newydd (60%) a datblygu polisi (56%) (gweler Ffigur 10).
- Dywedodd saith o bob deg ysgol (71%) fod eu cyngor ysgol neu gorff tebyg wedi'i arwain gan fyfyrwyr yn cyfarfod mwy na chwe gwaith y flwyddyn; fodd bynnag, nid oedd 8% o ysgolion yn bodloni'r gofyniad, sef chwe chyfarfod y flwyddyn. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd **grwpiau llais y myfyriwr yn gweithio'n fwyaf cyffredin ar** bynciau bwyd a maeth (81% o ysgolion), lles meddyliol (79%) a bwlio (74%) (gweler Ffigur 11).
- Nid oedd bron i hanner yr ysgolion (48%) yn **cynnwys rhieni mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles**, ac roedd 15% ohonynt yn cynnwys rhieni wrth amlygu meysydd iechyd â blaenoriaeth.
- O'r ysgolion hynny a oedd yn cynnwys rhieni mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles, gwnaeth 84% ohonynt drwy riant-lywodraethwyr, 65% ohonynt drwy arolygon a 62% ohonynt drwy nosweithiau gwybodaeth (gweler Ffigur 12).
- Roedd dros hanner (53%) o ysgolion yn anfodlon ar y lefel bresennol o ymglymiad gan rieni o gymharu â dim ond 11% a oedd yn fodlon (gweler Ffigur 13).
- Ar y cyfan, roedd gan 90% o ysgolion **gyfleusterau chwaraeon/chwarae awyr agored a/neu dan do yn eu cynnig i grwpiau cymunedol lleol eu defnyddio** gyda'r nos. Roedd cyfleusterau chwaraeon/chwarae awyr agored ar gael gan dri o bob pum ysgol (63%) i grwpiau o'r fath ar benwythnosau a/neu yn ystod gwyliau'r ysgol, ac roedd cyfleusterau chwaraeon/chwarae dan do cyfran is o ysgolion ar gael (56% ar benwythnosau, 58% yn ystod gwyliau'r ysgol).
- Nid oedd dros dri chwarter o ysgolion (77%) yn **cynnig eu cyfleusterau arlwyo/bwyta**. Roedd cyfrannau tebyg yn eu cynnig gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol (15%, 13% a 14% yn y drefn honno).
- Roedd bron pob ysgol (93%) a oedd yn cynnig bod eu cyfleusterau ar gael i grwpiau yn y gymuned leol, **yn codi tâl ar rai neu ar bob grŵp** am eu defnyddio (gweler Ffigur 14).

- Roedd tri chwarter o ysgolion (74%) a oedd yn codi ar rai neu ar bob grŵp i ddefnyddio’u cyfleusterau yn gwneud hynny i dalu costau staffio, gyda dwy o bob pum ysgol (43%) yn gwneud hynny i greu incwm i’r ysgol. Rhoddwyd talu costau staffio fel rheswm gan 82% o ysgolion a oedd yn codi tâl ar rai grwpiau, a chan 63% o ysgolion a oedd yn codi tâl ar bob grŵp, ac roedd creu incwm i’r ysgol wedi’i roi’n rheswm gan 32% o ysgolion a oedd yn codi tâl ar rai grwpiau, a chan 59% o ysgolion a oedd yn codi tâl ar bob grŵp.
- Roedd pob ysgol **yn gweithio gydag o leiaf un partner lleol neu genedlaethol i wella iechyd a lles myfyrwyr** ac roedd 83% ohonynt yn gweithio gyda phum partner neu fwy. Partneriaethau gyda’r heddlu/Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (92%), swyddogion datblygu chwaraeon (82%), gweithwyr proffesiynol iechyd (81%) a gweithwyr ieuencid (79%) oedd y mwyaf cyffredin (gweler Ffigur 15).

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio ‘Ddim yn gwybod’ neu lle na roddwyd ymateb)
C19 Sawl gwaith y flwyddyn y mae’r Cyngor Ysgol neu gorff dan arweiniad myfyrwyr tebyg yn cyfarfod?	Pob ysgol a ymatebodd (161)
C21 Ym mha feysydd y mae rhieni’n cyfrannu at benderfyniadau ynghylch gwella iechyd a llesiant yn eich ysgol?	Pob ysgol a ymatebodd (145)
C24 Pa gyfleusterau yn eich ysgol sydd ar gael i grwpiau yn y gymuned leol i’w defnyddio, a phryd?	Pob ysgol a ymatebodd sydd â chyfleuster: Chwaraeon awyr agored (158); Chwaraeon dan do (154); Cyfleusterau bwyta (142); Cyfleusterau eraill (131)
C26 Pam ydych chi’n codi tâl ar grwpiau cymunedol i ddefnyddio cyfleusterau’r ysgol?	Pob ysgol sy’n codi tâl ar grwpiau cymunedol lleol i ddefnyddio cyfleusterau’r ysgol (125)


Ffig. 9 Dulliau a ddefnyddiwyd i gynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles



C17 Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r dulliau canlynol i gynnwys myfyrwyr mewn llunio polisiau?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n defnyddio o leiaf un dull i gynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Ymgynghori â'r cyngor Ysgol (160), â grwpiau eraill llais (155), â myfyrwyr (158), Blychau awgrymiadau (153), Dulliau eraill (84).


Ffig. 10 Cam cynnwys y myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles



C18 Ym mha gam y caiff eich myfyrwyr eu cynnwys fel arfer?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (151).


Ffig. 11 Meysydd iechyd a lles y mae grwpiau llais y myfyriwr wedi gweithio arnynt yn y ddwy flynedd ddiwethaf



C20 Pa bynciau iechyd a lles y mae eich grwpiau llais myfyrwyr wedi gweithio arnynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (159).


Ffig. 12 Ffyrdd y mae ysgolion yn cynnwys rhieni mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles



C22 Ym mha ffyrdd mae rhieni yn cyfrannu at wneud penderfyniadau am wella iechyd a lles?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cynnwys rhieni mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (76).


Ffig. 13 Boddhad â'r lefel bresennol o ymwneud gan rieni mewn gwella iechyd a lles



C23 Pa mor fodlon ydych chi â'r lefel bresennol o ymglymiad rhieni o ran gwella iechyd a lles yn eich ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (148).


Ffig. 14 Cyfran yr ysgolion sy'n codi tâl ar grwpiau cymunedol i ddefnyddio'u cyfleusterau



C25 A godir tâl ar grwpiau cymunedol lleol i ddefnyddio cyfleusterau eich ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd â chyfleusterau sy'n cael eu defnyddio gan grwpiau cymunedol lleol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (138).

Ffig. 15 Partneriaethau i wella iechyd a lles myfyrwyr



C27 A oes gan eich ysgol bartneriaethau* gydag unrhyw un o'r unigolion neu'r grwpiau canlynol i helpu gwella iechyd a lles myfyrwyr?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (158).

* Ystyr partneriaethau yw unrhyw berthynas ffurfiol neu anffurfiol sy'n bodoli am gyfnod neu drwy'r amser ac sydd, yn achos awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn mynd y tu hwnt i ofynion statudol.


2.3 Addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm

Crynodeb o ganfyddiadau

- Roedd tua dwy ran o dair o ysgolion (64 – 66%) yn defnyddio naill ai gwersi yn yr amserlen yn unig neu ddiwrnodau Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn unig i **gyflwyno’u cwricwlwm ABCh** i Flynyddoedd 7 i 9. Roedd cyfran yr ysgolion a oedd yn defnyddio diwrnodau ABCh yn unig yn uwch i Flynyddoedd 10 i 13 (27 – 31%) o gymharu â Blynyddoedd 7 i 9 (15 – 17%) (gweler Ffigur 16).
- Roedd rhwng 30% a 39% o ysgolion yn cael 30 munud neu lai o **ABCh yr wythnos yn y cwricwlwm ffurfiol**. Roedd ychydig dros draean o ysgolion yn darparu awr neu fwy o ABCh yr wythnos ym Mlynyddoedd 12 a 13 (35% o ysgolion ar gyfer pob grŵp blwyddyn) (gweler Ffigur 17).
- Roedd **ABCh yn cael ei gydlynu** gan staff mewn amrywiaeth fawr o rolau. Roedd gan un o bob tair ysgol athro ABCh arbenigol (31%) yn cydlynu ABCh, ac roedd aelod o uwch dîm rheoli’r ysgol yn y rôl hon mewn 36% o ysgolion (gweler Ffigur 18).
- Roedd baich **y prif gyfrifoldeb am addysgu ACBh** yn fwyaf tebygol o fod ar diwtoriaid dosbarth (35% o ysgolion), yna athrawon dosbarth/nid oes gan un grŵp gyfrifoldeb cyffredinol (29%). Roedd asiantaethau allanol yn gyfrifol mewn 12% o ysgolion (gweler Ffigur 19).
- **Nid oedd** bron i chwech o bob deg ysgol (57%) **yn darparu hyfforddiant ffurfiol i athrawon ABCh nad ydynt yn arbenigwyr**. Roedd hyfforddiant o’r fath yn orfodol mewn 19% o ysgolion ac yn ddewisol mewn 19% arall (gweler Ffigur 20).
- Roedd cyfran yr ysgolion a oedd **yn darparu dros awr o Addysg Gorfforol yr wythnos** yn 79 – 86% ym Mlynyddoedd 7 i 9, o gymharu ag ychydig dros 20% ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Roedd dros 90% o ysgolion yn darparu mwy na 45 munud o Addysg Gorfforol yr wythnos ar gyfer Blynyddoedd 7 i 11 (gweler Ffigur 21).
- Nid yw’n annisgwyl mai gwersi ABCh/Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) oedd **y lleoliad a ddefnyddiwyd amlaf i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm ffurfiol**, ac eithrio addysg ar fwytā’n iach, a gyflwynwyd yn fwyaf cyffredin mewn gwersi Technoleg Bwyd ym Mlynyddoedd 7 i 9 (gweler Ffigurau 22-29).
- Hefyd, defnyddiwyd gwersi gwyddoniaeth yn aml fel **lleoliad ar gyfer addysgu am bynciau iechyd corfforol**, yn enwedig bwytā’n iach, gweithgarwch corfforol, addysg ar dybaco ac, ym Mlynyddoedd 7 i 9, addysg rhyw a pherthnasoedd (gweler Ffigurau 22-26, 28).
- ‘Bwyta’n iach’ oedd y pwnc oedd fwyaf tebygol o gael ei **addysgu mewn mwy nag un lle** yn y cwricwlwm (70 – 76% ar gyfer Blynyddoedd 7 i 9), yna pwnc ‘buddion iechyd gweithgarwch corfforol’ (49 – 52% ar gyfer Blynyddoedd 7 i 9) (gweler Ffigurau 22 a 23 yn y drefn honno).

- Roedd rhwng 42% a 61% o ysgolion **yn addysgu rhyw fath o addysg perthnasoedd heblaw am addysg rhyw a pherthnasoedd** mewn ABCh neu ym Magloriaeth Cymru ym mhob grŵp blwyddyn ac roedd tua chwarter o ysgolion yn cyflwyno addysg o'r fath trwy addysg grefyddol ym Mlynnyddoedd 7 i 11 (gweler Ffigur 29).


Ffig. 16 Cyflwyno ABCh yn y cwricwlwm ffurfiol



C28 Sut ydych chi'n cyflwyno addysg bersonol a chymdeithasol yn eich ysgol chi (naill ar fel gwersi ABCh neu fel rhan o Fagloriaeth Cymru)?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (157), Blwyddyn 8 (157), Blwyddyn 9 (157), Blwyddyn 10 (154), Blwyddyn 11 (151), Blwyddyn 12 (98), Blwyddyn 13 (98).


Ffig. 17 Amser wedi'i neilltuo i ABCh o fewn y cwricwlwm ffurfiol (wythnosol)



C29 Ar gyfer pob grŵp blwyddyn, faint o ABCh (naill ai fel gwersi ABCh neu fel rhan o Fagloriaeth Cymru) sy'n cael ei hamserlennu bob wythnos yn y cwricwlwm ffurfiol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (133), Blwyddyn 8 (127), Blwyddyn 9 (128), Blwyddyn 10 (112), Blwyddyn 11 (111), Blwyddyn 12 (66), Blwyddyn 13 (66).


Ffig. 18 Rôl yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb am gydlynu'r ddarpariaeth ABCh



C30 Pwy sy'n gyfrifol am gydlynu darpariaeth ABCh yn yr ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (154).


Ffig. 19 Athrawon sydd â'r prif gyfrifoldeb am addysgu ABCh



C31 Gan bwy y mae'r prif gyfrifoldeb dros addysg ABCh?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (154).


Ffig. 20 Darparu hyfforddiant ffurfiol i athrawon ABCh nad ydynt yn arbenigwyr



C32 Os yw athrawon addysg iechyd / ABCh anarbenigol yn addysgu ABCh, a yw hyfforddiant ffurfiol yn cael ei ddarparu i'w cefnogi i gyflwyno cwricwlwm ABCh?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (138).


Ffig. 21 Amser wedi'i neilltuo i Addysg Gorfforol yn y cwricwlwm ffurfiol (wythnosol)



C33 Ar gyfer pob grŵp blwyddyn, faint o Addysg Gorfforol sy'n cael ei hamserlennu bob wythnos yn y cwricwlwm ffurfiol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Blwyddyn 7 (141), Blwyddyn 8 (141), Blwyddyn 9 (141), Blwyddyn 10 (138), Blwyddyn 11 (137).


Ffig. 22 Addysg ar fwyta'n iach yn y cwricwlwm ffurfiol



C34 Pa grwpiau blwyddyn sy'n cael eu haddysgu am fwyta'n iach fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol ac ymhle y caiff ei addysgu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (151), Blwyddyn 8 (151), Blwyddyn 9 (151), Blwyddyn 10 (148), Blwyddyn 11 (145), Blwyddyn 12 (93), Blwyddyn 13 (94).


Ffig. 23 Addysg ar weithgarwch corfforol yn y cwricwlwm ffurfiol



C35 Pa grwpiau blwyddyn sy'n cael eu haddysgu ar fuddion iechyd gweithgarwch corfforol (yn ogystal ag addysg gorfforol) fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol ac ymhle y caiff ei addysgu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (153), Blwyddyn 8 (152), Blwyddyn 9 (151), Blwyddyn 10 (151), Blwyddyn 11 (148), Blwyddyn 12 (95), Blwyddyn 13 (95).


Ffig. 24 Addysg ar dybaco yn y cwricwlwm ffurfiol



C36 Pa grwpiau blwyddyn sy'n cael eu haddysgu am dybaco fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol ac ymhle y caiff ei addysgu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (146), Blwyddyn 8 (145), Blwyddyn 9 (145), Blwyddyn 10 (144), Blwyddyn 11 (140), Blwyddyn 12 (90), Blwyddyn 13 (90).


Ffig. 25 Addysg ar gyffuriau yn y cwricwlwm ffurfiol



C37 Pa grwpiau blwyddyn sy'n cael eu haddysgu am gyffuriau fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol ac ymhle y caiff ei addysgu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (149), Blwyddyn 8 (151), Blwyddyn 9 (153), Blwyddyn 10 (151), Blwyddyn 11 (150), Blwyddyn 12 (97), Blwyddyn 13 (96).


Ffig. 26 Addysg ar alcohol yn y cwricwlwm ffurfiol



C38 Pa grwpiau blwyddyn sy'n cael eu haddysgu am alcohol fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol ac ymhle y caiff ei addysgu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (151), Blwyddyn 8 (152), Blwyddyn 9 (151), Blwyddyn 10 (150), Blwyddyn 11 (150), Blwyddyn 12 (97), Blwyddyn 13 (96).


Ffig. 27 Addysg ar iechyd meddwl a lles meddyliol yn y cwricwlwm ffurfiol



C39 Pa grwpiau blwyddyn sy'n cael addysg iechyd meddwl a lles (e.e. gwynnwch, llythrennedd emosiynol, parodrwydd i ddysgu) yn y cwricwlwm ffurfiol a lle caiff ei addysgu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (150), Blwyddyn 8 (150), Blwyddyn 9 (150), Blwyddyn 10 (151), Blwyddyn 11 (151), Blwyddyn 12 (101), Blwyddyn 13 (100).


Ffig. 28 Addysg rhyw a pherthnasoedd yn y cwricwlwm ffurfiol



C40 Pa grwpiau blwyddyn sy'n cael addysg perthnasoedd ac addysg rhyw (RSE) fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol a lle caiff ei addysgu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (151), Blwyddyn 8 (149), Blwyddyn 9 (152), Blwyddyn 10 (150), Blwyddyn 11 (147), Blwyddyn 12 (94), Blwyddyn 13 (93).

Ffig. 29 Addysg perthnasoedd heblaw am addysg rhyw a pherthnasoedd yn y cwricwlwm ffurfiol



C41 Os yw myfyrwyr yn cael unrhyw fath o addysg perthnasoedd ar wahân i RSE, lle caiff ei addysgu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (mae'r sylfeini ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth): Blwyddyn 7 (137), Blwyddyn 8 (138), Blwyddyn 9 (138), Blwyddyn 10 (136), Blwyddyn 11 (133), Blwyddyn 12 (86), Blwyddyn 13 (87).


2.4 Gweithgarwch corfforol a chludiant egniïol

Crynodeb o ganfyddiadau

- Roedd cyfran yr ysgolion a oedd yn **cynnig chwaraeon neu weithgarwch corfforol strwythuredig allgyrsiol** i fyfyrwyr bob dydd ym Mlynnyddoedd 7 a 10 rhwng 35% a 40% (gweler Ffigur 30).
- Cyfran yr ysgolion a oedd **yn defnyddio Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru i gyflwyno chwaraeon neu weithgarwch corfforol allgyrsiol** oedd 47%. Athrawon eraill neu staff eraill yr ysgol oedd y grŵp a ddefnyddiwyd amlaf gan ysgolion i gyflwyno chwaraeon allgyrsiol (79%), ar ôl athrawon Addysg Gorfforol (gweler Ffigur 31).
- Roedd campfa / neuadd chwaraeon, cae chwarae neu gwrth pêl-fasged/pêl-rwyd **ar gael i fyfyrwyr naill ai amser cinio a/neu ar ôl ysgol** mewn oddeutu saith i wyth o bob deg ysgol (69-80%). Mewn oddeutu chwech o bob deg ysgol, roedd offer chwaraeon ar gael i fyfyrwyr yn ystod amser cinio (62%) ac ar ôl ysgol (56%) (gweler Ffigur 32).
- Roedd tair o bob pedair ysgol (76%) yn aelodau o **Gynllun Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru**, ac roedd gan ddwy o bob pum ysgol (42%) 5 llysgennad neu fwy (gweler Ffigur 33).
- Roedd pedair o bob pum ysgol (80%) **yn monitro pwysau corff a/neu ffitrwydd corfforol myfyrwyr**. Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r ddau gwestiwn, roedd 34% yn monitro'r ddau, roedd 45% yn monitro ffitrwydd corfforol myfyrwyr yn unig ac roedd pedwar y cant yn monitro pwysau corff myfyrwyr yn unig.
- O'r ysgolion a wnaeth **fonitro ffitrwydd corfforol myfyrwyr**, roedd dros hanner ohonynt yn argymhell gweithgareddau ar ôl ysgol neu weithgareddau cymunedol eraill (60%) ac yn ymgynghori â myfyrwyr (54%) pan roeddent yn amlygu lefelau isel o ffitrwydd (gweler Ffigur 34).
- O'r ysgolion a oedd yn **monitro pwysau corff myfyrwyr**, roedd dros chwech o bob deg ohonynt yn trafod y mater gyda rhieni'r myfyrwyr yn unigol (62%) ac yn atgyfeirio'r myfyriwr i nyrs yr ysgol (62%) pan roeddent yn amlygu pryderon (gweler Ffigur 35).
- Y dull a ddefnyddiwyd amlaf i **hyrwyddo cludiant egniïol** oedd darparu man storio diogel, dan orchudd, i feiciau a sgwteri (62% o ysgolion), gydag oddeutu hanner o ysgolion yn hyrwyddo llwybrau cerdded a seiclo diogel (48%) a phedair o bob deg ysgol (41%) yn cydweithio â'r heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i fynd i'r afael â diogelwch cymunedol neu ddiogelwch cludiant. Dim ond 10% o ysgolion a oedd yn cynnig hyfforddiant hyfedredd seiclo (gweler Ffigur 36).
- Roedd tua thair o bob deg ysgol (29%) **yn monitro nifer y myfyrwyr sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol**, ond saith y cant yn unig o ysgolion a oedd yn **gosod nodau** i gynyddu'r nifer hwn.

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)
C49 A yw'r ysgol: (1) Yn monitro nifer y myfyrwyr sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol; (2) Yn gosod targedau er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol	Pob ysgol a ymatebodd: Monitro myfyrwyr (144); Gosod nodau (138)


Ffig. 30 Nifer diwrnodau'r wythnos y gall myfyrwyr Blynnyddoedd 7 a 10 gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol strwythuredig allgyrsiol



C42 Ar gyfartaledd, sawl diwrnod yr wythnos y gall disgyblion ym mlynnyddyn 7 a blwyddyn 10 gymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu weithgaredd corfforol strwythuredig arall (dan arweiniad staff, gwirfoddolwyr, disgyblion eraill) yn nhymor yr hydref a thymor yr haf, e.e. clwb pêl-droed, clwb dawns?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (149).


Ffig. 31 Grwpiau sy'n cyflwyno chwaraeon allgyrsiol mewn ysgolion



C43 Pwy sy'n darparu gweithgaredd corfforol a chwaraeon allgyrsiol yn eich ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cyflwyno chwaraeon a gweithgarwch corfforol allgyrsiol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (151).


Ffig. 32 Mynediad myfyrwyr at adnoddau gweithgarwch corfforol y tu hwnt i amser gwersi



C44 A yw'r canlynol ar gael i ddisgyblion ar safle'r ysgol (gyda goruchwyliaeth neu heb oruchwyliaeth)?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Campfa / neuadd chwaraeon, Cae chwaraeon / meysydd chwarae & Offer ar gyfer chwaraeon tîm (151), Pwll nofio (150), Stiwdio ffitrwydd / dawns, Cyrtiau pêl-fasged / pêl-rwyd & Lle chwarae (149), Trac rhedeg (148), Meysydd pêl-droed 5 bob ochr & Lle sgrialu (147).


Ffig. 33 Canran yr ysgolion â Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru



C45 Sawl Cennad Ifanc Chwaraeon Cymru sydd gan eich ysgol ar hyn o bryd?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (118).


Ffig. 34 Camau gan yr ysgol i fynd i'r afael â lefelau isel o ffitrwydd



C46 A yw'ch ysgol yn monitro ffitrwydd corfforol myfyrwyr ar lefel ysgol a / neu ar lefel myfyriwr unigol, a pha gamau ydych chi'n eu cymryd ar ôl nodi lefelau ffitrwydd isel?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n monitro lefelau ffitrwydd myfyrwyr, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (111).


Ffig. 35 Camau gan yr ysgol i fynd i'r afael â phryderon am bwysau'r corff



C47 A yw'ch ysgol yn monitro pwysau corff eich myfyrwyr ar lefel ysgol a / neu ar lefel myfyriwr unigol, a pha gamau ydych chi'n eu cymryd ar ôl nodi pryderon?

Sylfaen: Pob ysgol sy'n monitro pwysau corff myfyrwyr, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (53).

Ffig. 36 Strategaethau i hyrwyddo teithio egni²



C48 A yw eich ysgol yn hyrwyddo teithio llesol mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (147).

² Mae 'Dim un o'r uchod' yn ymateb sy'n opsiwn newydd yn 2020.

2.5 Bwyta'n iach

Crynodeb o ganfyddiadau


- Roedd pob ysgol yn ymgymryd ag o leiaf un o'r chwe **strategaeth hyrwyddo bwyta'n iach** sydd wedi'u rhestru ac roedd ychydig dros hanner o ysgolion (55%) yn gwneud tri pheth neu fwy. Y strategaeth a ddefnyddiwyd amlaf i hyrwyddo bwyta'n iach oedd defnyddio system heb arian i annog myfyrwyr i gael prydau ysgol am ddim (92% o ysgolion). Roedd defnyddio cymhellion o ran pris opsiynau iachach yn anghyffredin (11% o ysgolion). Roedd gan 43% o ysgolion nodau i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim (gweler Ffigur 37).
- Cynigiwyd **rhaglenni allgyrsiol ar ddysgu am fwyd a bwyta'n iach** mewn cyfanswm o 72% o ysgolion, gyda 25% yn gyffredinol yn cael eu cynnig yn rheolaidd a 47% yn ddigwyddiadau achlysurol neu unigol. Nid oedd tua thraean o ysgolion a gynigiodd raglenni o'r fath byth yn gwahodd rhieni i gymryd rhan, ni waeth p'un a oeddent yn rhaglenni rheolaidd (36%) neu'n rhai achlysurol (34%) (gweler Ffigur 38).
- Roedd hanner (53%) o ysgolion **yn cynnig clwb brecwast** trwy gydol y flwyddyn i bob myfyriwr. Roedd 21% arall o ysgolion yn cynnig clwb brecwast i rai myfyrwyr a/neu ar adegau penodol o'r flwyddyn. Roedd mwyafrif (90%) yr ysgolion a gynigiodd frecwast yn gwneud hynny'n ddyddiol.
- Roedd **codi tâl ar fyfyrwyr am frecwast** yn amrywio yn dibynnu ar y math o glwb. Lle y cynigiwyd y clwb i rai myfyrwyr a/neu ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig, roedd y clwb yn fwy tebygol o lawer o fod yn rhad ac am ddim o gymharu â chlybiau a gynigiwyd i bob myfyriwr trwy gydol y flwyddyn (61% o gymharu â 29%) (gweler Ffigur 39).
- Yr agwedd ar **amgylchedd ciniawa'r ysgol** oedd leiaf tebygol o fod yn bresennol mewn ysgolion oedd nifer ddigonol o gadeiriau a byrddau (69%) (gweler Ffigur 40).
- Roedd mwyafrif yr ysgolion (99%) yn cael **o leiaf 30 munud ar gyfer eu hegwl ginio**, gyda saith y cant yn gyffredinol yn cael awr neu fwy (gweler Ffigur 41).
- Roedd chwech y cant o ysgolion wedi **cynyddu hyd eu hegwl ginio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf**, ac roedd pumed (22%) o ysgolion wedi'i chwtdogi. Roedd pumed arall (22%) wedi ystyried ei chwtdogi, ond wedi penderfynu peidio â gwneud. O'r ysgolion hynny a oedd wedi cwtdogi neu yn ystyried cwtdogi hyd eu hegwl ginio, dywedodd dros dri chwarter (77%) ohonynt mai gwella ymddygiad myfyrwyr oedd y prif symbyliad.
- Nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion (70%) yn caniatáu i'r un o'u myfyrwyr ym mlynnyddoedd 7 i 11 **adael y safle yn ystod amser cinio**. Ymhlith yr ysgolion a oedd yn caniatáu i rai myfyrwyr adael y safle, roedd rhwng 61% a 65% ohonynt yn caniatáu i fyfyrwyr Blynnyddoedd 7, 8 a/neu 9 adael y safle, ond gyda chaniatâd rhieni yn unig. Roedd 84% o'r ysgolion hyn yn caniatáu i fyfyrwyr Blwyddyn 10 adael safle'r ysgol yn ystod amser cinio, a 100% o ysgolion yn caniatáu hynny ar gyfer Blwyddyn 11. Roedd cyfran fechan o ysgolion yn caniatáu i fyfyrwyr Blwyddyn 10

a/neu Flwyddyn 11 adael safle'r ysgol heb ofyn am ganiatâd rhieni (7% a 21% yn y drefn honno) (gweler Ffigur 42). Ni wnaeth mwyafrif yr ysgolion (91%) **newid eu polisi ar ganiatáu i grwpiau blwyddyn adael safle'r ysgol yn ystod amser cinio** yn ystod blynyddoedd ysgol 2017/18 neu 2018/19. Fodd bynnag, newidiodd naw y cant ohonynt eu polisi i ganiatáu i lai o grwpiau blwyddyn neu fyfyrwyr adael safle'r ysgol.

- Roedd gan oddeutu chwech o bob deg ysgol (58%) **bolisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd**. Roedd polisi wrthi'n cael ei ddatblygu gan un o bob pum ysgol arall (22%).
- O'r ysgolion â pholisïau ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd, y digwyddiad lleiaf tebygol o gael ei gynnwys yn y polisi hwn oedd y mathau o fwydydd a diodydd y gellid eu cynnig yn nigwyddiadau cymdeithasol yr ysgol i rieni (65%) (gweler Ffigur 43).
- Ymhlith ysgolion oedd â pholisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd, roedd dros hanner ohonynt (54%) â pholisi yn cynnwys arweiniad ar **y mathau o fwydydd a diodydd y gall myfyrwyr ddod â nhw i'r ysgol**, ac i bump y cant ohonynt, roedd y polisi yn cynnwys gofynion ynghylch pethau felly.
- O'r ysgolion a oedd yn cynnwys arweiniad neu ofynion ynghylch y mathau o fwydydd a diodydd y gall myfyrwyr ddod â nhw i'r ysgol yn eu polisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd, roedd bron i ddwy ran o dair ohonynt (64%) hefyd yn cynnwys **pa fwydydd y gellid dod â nhw ar deithiau ysgol** yn eu harweiniad eu neu eu gofynion.
- Nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion (71%) yn **monitro'r bwydydd y mae myfyrwyr yn dod â nhw i'r ysgol**, tra'r oedd wyth y cant ohonynt yn ei fonitro o leiaf unwaith y tymor ac un o bob pump (21%) ohonynt yn ei fonitro'n llai aml.
- Roedd **defnyddio deunyddiau wedi'u noddi'n fasnachol** yn anghyffredin, ac nid oedd o leiaf 90% o ysgolion yn defnyddio deunyddiau gan gwmnïau bwyd brys, diodydd meddal, diodydd egni neu felysion ar gyfer gweithgareddau. Roedd deunyddiau gan archfarchnadoedd a sefydliadau masnach ill dau yn cael eu defnyddio gan 16% o ysgolion ar gyfer addysgu ac roedd 10% o ysgolion yn defnyddio deunyddiau gan archfarchnadoedd ar gyfer digwyddiadau codi arian (gweler Ffigur 44).
- Nid oedd mwy na thair o bob pum ysgol (62%) yn ymwneud ag archfarchnadoedd, cwmnïau bwyd brys, cwmnïau diodydd meddal, cwmnïau diodydd egni, cwmnïau melysion na sefydliadau masnach. O'r ysgolion hynny a wnaeth ymwneud â sefydliadau eraill, roedd pedair o bob pump (83%) ohonynt yn **gwahodd cynrychiolwyr o archfarchnadoedd neu'n mynd â myfyrwyr i ymweld â nhw** ac roedd un o bob tair (36%) yn gwneud hynny gyda sefydliadau masnach (gweler Ffigur 45).

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)
C51 A yw eich ysgol neu unrhyw sefydliad arall yn darparu unrhyw raglenni allgyrsiol ar gyfer dysgu am fwyd a bwyta'n iach, e.e. clybiau coginio?	Pob ysgol a ymatebodd (146)
C53 A yw eich ysgol yn darparu clwb brecwast cyn cychwyn sesiwn bore'r ysgol?	Pob ysgol a ymatebodd (146)
C54 Sawl diwrnod yr wythnos y mae'r clwb brecwast ar agor?	Pob ysgol sy'n cynnig clwb brecwast (107)
C58 Ydych chi wedi ystyried newid hyd eich egwyl ginio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?	Pob ysgol a ymatebodd (144)
C59 Beth oedd y prif ysgogiad dros gwtogi, neu ystyried cwtogi, hyd eich egwyl ginio?	Pob ysgol a wnaeth gwtogi, neu ystyried cwtogi, hyd eu hegwl ginio (61)
C60 A oes gan unrhyw ddisgyblion ym mlynedd 7 i 11 hawli i fynd oddi ar dir yr ysgol yn ystod eu hamser cinio?	Pob ysgol a ymatebodd (145)
C61 A newidiodd eich polisi ar ganiatáu grwpiau blwyddyn penodol i adael tir yr ysgol yn ystod eu hamser cinio yn ystod 2017/18 neu 2018/19?	Pob ysgol a ymatebodd (136)
C62 A oes gan eich ysgol bolisi bwyta'n iach, neu ar Fwyd a Ffitrwydd?	Pob ysgol a ymatebodd (137)
C64 A yw polisi eich ysgol ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd yn cynnwys canllawiau neu ofynion ynghylch y mathau o fwydydd a diodydd y gall disgyblion ddod gyda nhw i'r ysgol, e.e. mewn bocsys bwyd?	Pob ysgol sydd â pholisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd (76)
C65 A yw hyn yn cynnwys bwyd ar gyfer triapiau ysgol?	Pob ysgol y mae eu polisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd yn cynnwys arweiniad/gofynion ynghylch y mathau o fwydydd/diodydd y gall myfyrwyr ddod â nhw i'r ysgol (39)
C66 A yw'r bwyd a ddaw'ch disgyblion i'r ysgol yn cael ei fonitro o gwbl?	Pob ysgol a ymatebodd (143)
C68 A yw eich ysgol yn gwahodd cynrychiolwyr o, neu'n mynd â myfyrwyr i ymweld ag, unrhyw un o'r canlynol?	Pob ysgol a ymatebodd (139)


Ffig. 37 Strategaethau i hyrwyddo bwyta'n iach



C50 A yw eich ysgol yn gwneud unrhyw un o'r pethau canlynol i hyrwyddo bwyta'n iach?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (146).


Ffig. 38 Gwahoddiadau i rieni gymryd rhan mewn rhaglenni allgyrsiol ar fwyta'n iach



C52 A yw rhieni'n cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd â rhaglenni allgyrsiol ar ddysgu am fwyd a bwyta'n iach, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Rhaglenni rheolaidd (36), Rhaglenni achlysurol neu ddigwyddiadau unigol (67).


Ffig. 39 Codi tâl ar fyfyrwyr am glybiau brecwast



C55 Ydy'r myfyrwyr yn talu am eu brecwast yn y clwb?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cynnig clwb brecwast, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Clwb brecwast ar gael i bob (75), Clwb brecwast ar gael i rai myfyrwyr a/neu ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig (28)


Ffig. 40 Amgylchedd ciniawa'r ysgol



C56 Ticiwch 'Oes' neu 'Nac oes' mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol ynghylch ffreutur eich ysgol

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Digon o seddi yn yr ystafell fwyta (149), O leiaf 20 munud i fwyta ar ôl eistedd (148), Gall myfyrwyr â chinio parod eistedd yn yr ystafell fwyta (148), Dŵr yfed am ddim yn yr ystafell fwyta (147), Goruchwyliaeth yn yr ystafell fwyta bob amser (150).


Ffig. 41 Hyd yr egwyl ginio



C57 Faint o amser y mae disgyblion yn ei gael amser cinio yn eich ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (149).


Ffig. 42 Caniatâd i adael yr ysgol yn ôl grŵp blwyddyn mewn ysgolion sy'n caniatáu i unrhyw grŵp blwyddyn adael y safle



C60 A oes gan unrhyw ddisgyblion ym mlynedd 7 i 11 hawl i fynd oddi ar dir yr ysgol yn ystod eu hamser cinio?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n caniatáu i o leiaf un grŵp blwyddyn adael y safle, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb: Blwyddyn 7 (43), Blwyddyn 8 (43), Blwyddyn 9 (43), Blwyddyn 10 (44), Blwyddyn 11 (44).


Ffig. 43 Cynnwys mewn polisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd y mathau o fwydydd a diodydd y gellir eu cynnig neu eu gwerthu mewn gwahanol gyd-destunau



C63 A yw polisi eich ysgol ar fwyta'n iach neu Fwyd a Ffitrwydd yn cynnwys y mathau o fwydydd a diodydd y gellir eu cynnig neu eu gwerthu yn y canlynol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd â pholisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Mewn prosiectau menter i ddisgyblion (73), Yn nigwyddiadau cymdeithasol yr ysgol i rieni (69), Yn nigwyddiadau cymdeithasol yr ysgol i ddisgyblion (70), Mewn digwyddiadau codi arian gan yr ysgol neu'r disgyblion (73).


Ffig. 44 Defnyddio deunyddiau wedi'u noddi'n fasnachol



C67 A yw'ch ysgol yn defnyddio deunyddiau sy'n cael eu noddi'n fasnachol gan y sefydliadau canlynol ar gyfer addysgu neu weithgareddau eraill yn yr ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Archfarchnadoedd (134), Cwmnïau bwyd brys (132), Cwmnïau diodydd meddal (133), Cwmnïau diodydd egni (133), Cwmnïau melysion (134), Sefydliadau masnachu (131)

Ffig. 45 Busnesau y mae ysgolion yn gwahodd cynrychiolwyr ohonynt neu'n mynd â myfyrwyr i ymweld â nhw



C68 A yw eich ysgol yn gwahodd cynrychiolwyr o, neu'n mynd â myfyrwyr i ymweld ag, unrhyw un o'r canlynol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n ymwneud ag o leiaf un sefydliad, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (53).

2.6 Tybaco, cyffuriau ac alcohol


Crynodeb o ganfyddiadau

- Roedd saith o bob deg ysgol (70%) **yn addysgu myfyrwyr am dybaco anghyfreithlon**. Roedd mwyafrif yr ysgolion (92%) hefyd yn addysgu'u myfyrwyr am e-sigarêts/teclynnau fepio.
- Cynigiwyd **cymorth i roi'r gorau i dybaco** i fyfyrwyr mewn tair o bob pedair ysgol (76%). Roedd dros hanner yr ysgolion (53%) yn cynnig cymorth o'r fath trwy atgyfeirio i wasanaeth neu fenter oddi ar y safle, gyda bron i draean (32%) yn cynnig cymorth yn yr ysgol. Nid oedd ychydig o dan chwarter o ysgolion (24%) yn cynnig unrhyw wasanaethau cymorth i roi'r gorau i dybaco.
- Roedd gan bron pob ysgol **lwybrau neu brosesau atgyfeirio penodol yn eu lle i gynnig arbenigedd ac adnoddau i fyfyrwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol** (99%) (95%).
- Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion (85%) **bolisi a oedd yn cynnwys ysmegu a defnyddio tybaco**, ac roedd naw y cant wrthi'n datblygu polisi. O'r ysgolion hynny â pholisi, roedd gwahardd defnyddio tybaco ar dir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol yn nodwedd gyffredin iawn (dywedodd 97% ohonynt eu bod yn gwneud hyn), ac roedd gwahardd hynny yn nigwyddiadau'r ysgol oddi ar dir yr ysgol ychydig yn llai cyffredin (89%) (gweler Ffigur 46).
- Roedd gan fwy na dwy o bob tair ysgol (68%) **bolisi yn cynnwys sigarêts electronig**, h.y. e-sigarêts neu declynnau fepio, ac roedd dros 18% ohonynt wrthi'n datblygu polisi o'r fath.
- O'r ysgolion hynny â pholisi a oedd yn cynnwys defnyddio e-sigarêts, roedd mwyafrif helaeth ohonynt yn gwahardd myfyrwyr rhag defnyddio e-sigarêts ar dir yr ysgol yn ystod oriau ysgol (100%) a'r tu hwnt i oriau ysgol (96%). Roedd mwyafrif helaeth o ysgolion â pholisi o'r fath yn gwahardd staff hefyd rhag eu defnyddio yn ystod oriau ysgol (94%) a'r tu allan i oriau ysgol (88%) (gweler Ffigur 47).³
- Roedd bron i bob ysgol (98%) â pholisi a oedd yn cynnwys e-sigarêts yn gwahardd myfyrwyr rhag bod â'r rhain yn eu meddiant ar dir yr ysgol.
- Roedd un o bob pedair ysgol (26%) **yn caniatáu alcohol mewn digwyddiadau lle'r oedd safle'r ysgol yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau allanol ac roedd cyfrannau tebyg yn caniatáu alcohol mewn digwyddiadau ar safle'r ysgol i rieni** (27%) ac i staff (24%) (gweler Ffigur 48).

³ Sylwch, yn arolwg 2017/18, nid oedd 'dim un o'r rhain' yn opsiwn ar gyfer ymateb ac os nad ymatebodd ysgolion i'r cwestiwn, cawsant eu heithrio o'r sylfaen

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)
C69 A yw eich addysg tybaco yn cynnwys addysgu myfyrwyr am:	Pob ysgol a ymatebodd: Tybaco anghyfreithlon (137); E-sigaréts (142)
C70 A yw eich ysgol yn cynnig unrhyw fath o gymorth stopio ysmegu i fyfyrwyr?	Pob ysgol a ymatebodd (139)
C71 Oes gan eich ysgol lwybr penodol neu broses atgyfeirio ar waith i ddarparu arbenigedd ac adnoddau i fyfyrwyr sy'n:	Pob ysgol a ymatebodd: Camddefnyddio cyffuriau (145); Camddefnyddio alcohol (146)
C72 Oes gan eich ysgol bolisi sy'n cynnwys ysmegu a defnyddio tybaco?	Pob ysgol a ymatebodd (145)
C74 Oes gan eich ysgol bolisi sy'n cynnwys defnyddio sigarets electronig, sy'n cael eu hadnabod hefyd fel e-sigarets neu ddyfeisiau anweddu?	Pob ysgol a ymatebodd (136)
C76 A yw eich ysgol yn gwahardd myfyrwyr rhag meddu ar e-sigaréts ar eiddo'r ysgol?	Pob ysgol sydd â pholisi sy'n cynnwys defnyddio e-sigaréts (91)


Ffig. 46 Gwaharddiadau'r polisi ar ddefnyddio tybaco



C73 A yw polisi eich ysgol ar ysmegu a defnyddio tybaco yn gwahardd defnyddio tybaco yn y lleoliadau canlynol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd â pholisi yn cynnwys ysmegu a defnyddio tybaco, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb: Ar dir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol (120); Yn nifyddiadau'r ysgol oddi ar dir yr ysgol (113); Mewn cerbydau preifat ar dir yr ysgol (108)


Ffig. 47 Gwaharddiadau'r polisi ar ddefnyddio e-sigaréts



C75 A yw polisi eich ysgol yn gwahardd defnyddio e-sigaréts yn y lleoliadau canlynol, gan fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd â pholisi sy'n cynnwys defnyddio e-sigaréts, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Ar dir yr ysgol yn ystod oriau ysgol (93), Ar dir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol (92), Mewn cerbydau preifat ar dir yr ysgol (88), Yn nigwyddiadau'r ysgol oddi ar dir yr ysgol (90).

Ffig. 48 Gwaharddiadau'r polisi ar yfed alcohol



C77 A ganiateir alcohol yn unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Yn ystod digwyddiadau i staff ar y safle (135), Pan mae safle'r ysgol yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau allanol (120), Yn ystod digwyddiadau i rieni ar y safle (133)


2.7 Iechyd meddwl a lles meddyliol

Crynodeb o ganfyddiadau

- Roedd gan oddeutu hanner yr ysgolion **bolisiau ysgrifenedig ar iechyd meddwl a lles meddyliol myfyrwyr ac ar hunan-niweidio** (50% a 52% yn y drefn honno), ac roedd gan lai o ysgolion bolisiau ar atal hunanladdiad a/neu ofal ar ôl hunanladdiad (40%) (gweler Ffigur 49).
- Dywedodd dros hanner yr ysgolion (55%) fod eu holl staff wedi **cael hyfforddiant ar adnabod ac ymateb i effaith trawma yn ystod plentyndod**. Mewn chwarter o ysgolion, fodd bynnag, roedd llai na hanner y staff wedi cael yr hyfforddiant hwn (26%).
- Adroddodd bron i bob ysgol (97%) **fod mannau anogaeth pwrpasol ar gyfer myfyrwyr**, ond mewn traean o ysgolion (34%), roedd y mannau ar gael i rai myfyrwyr yn unig.
- Dywedodd pedair o bob pum ysgol (81%) eu bod wedi defnyddio **Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)** (gweler Ffigur 50).
- Dywedodd ychydig dros naw o bob deg ysgol (92%) fod eu **gwasanaeth cwnsela ar gael i staff** ac mewn naw y cant o ysgolion, roedd hwn ar y safle ac oddi ar y safle (gweler Ffigur 51).
- Cyflwynodd saith o bob deg ysgol (71%) **ymyriadau lles i staff**.

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)
C79 Faint o staff sydd wedi cael hyfforddiant i adnabod ac ymateb i effaith trawma adeg plentyndod e.e. cam-drin, rhieni'n camddefnyddio sylweddau, rhieni yn y carchar?	Pob ysgol a ymatebodd (141)
C80 A oes gan eich ysgol fan anogaeth pwrpasol ar gyfer myfyrwyr?	Pob ysgol a ymatebodd (144)
C83 A yw eich ysgol yn cyflwyno unrhyw ymyriadau lles ar gyfer staff?	Pob ysgol a ymatebodd (136)


Ffig. 49 Polisïau ysgrifenedig ar iechyd meddwl a lles meddyliol



C78 A oes gan eich ysgol bolisïau ysgrifenedig sy'n cynnwys y canlynol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Atal hunanladdiad a/neu ofal yn dilyn hunanladdiad (124), Hunan-niweidio (130), Iechyd a lles meddwl myfyrwyr (136).


Ffig. 50 Adnoddau iechyd meddwl a lles meddyliol



C81 A yw eich ysgol yn defnyddio'r canlynol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (143).

Ffig. 51 Mynediad staff at wasanaethau cwnsela



C82 A oes gan y staff fynediad at wasanaeth cwnsela?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (145).

2.8 Rhyw a pherthnasoedd


Crynodeb o ganfyddiadau

- Roedd gan amrywiaeth o staff **gyfrifoldeb am gydlynw addysgu Addysg Rhyw a Perthnasoedd**. Mewn 37% o ysgolion, uwch reolwr oedd hwn, h.y. pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol (gweler Ffigur 52).
- Athrawon gwyddoniaeth (62%), nyrsys ysgol (62%) ac asiantaethau allanol (55%) oedd y **cyfranwyr** mwyaf cyffredin **at addysgu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd** (gweler Ffigur 53).
- Dywedodd bron pob ysgol (99%) fod llai na phump y cant o **rieni yn tynnu’u plant o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**.
- Roedd gan bron i hanner yr ysgolion (50%) **wasanaeth ‘galw heibio’ ar y safle, yn benodol i roi cyngor ar gyfer iechyd rhywiol**. O’r ysgolion a gynigiodd y gwasanaeth ‘galw heibio’ hwn, roedd y mwyafrif ohonynt (82%) yn defnyddio nyrs ysgol y GIG i’w ddarparu (gweler Ffigur 54).
- Roedd dros ddwy o bob pump ysgol (44%) **yn darparu condomau rhad ac am ddim ar y safle i fyfyrwyr**.
- Roedd dros hanner yr ysgolion wedi neu wrthi’n **datblygu polisi ysgrifenedig a oedd yn cynnwys trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer staff a myfyrwyr** (53% a 56% yn y drefn honno) (gweler Ffigur 55).
- Dywedodd dwy o bob tair ysgol (66%) eu bod yn **gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol i fynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**. Roedd camau cyffredin eraill a gymerodd ysgolion i fynd i’r afael â’r mater yn cynnwys addysg i staff a myfyrwyr ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (59% a 46% yn y drefn honno) (gweler Ffigur 56).
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd rhai aelodau staff, neu’r cyfan ohonynt, yn cael **hyfforddiant ar ddatgeliadau gan fyfyrwyr (93%) a/neu adnabod ac ymateb i arwyddion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol** (87% ac 88% yn y drefn honno) (gweler Ffigur 57).

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio ‘Ddim yn gwybod’ neu lle na roddwyd ymateb)
C86 Pa gyfran o rieni sy’n atal eu plant rhag mynychu gwersi addysg perthnasoedd ac addysg rhyw (RSE)?	Pob ysgol a ymatebodd (132)
C87 A oes gan eich ysgol wasanaeth ‘galw heibio’ ar safle’r ysgol yn benodol i roi cyngor am iechyd rhyw?	Pob ysgol a ymatebodd (147)

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)
C89 A yw eich ysgol yn darparu condomau rhad ac am ddim ar y safle i fyfyrwyr yr ysgol (gan gynnwys dosbarthu yn unol â chynllun Cerdyn-C)?	Pob ysgol a ymatebodd (143)


Ffig. 52 Cyfrifoldeb am gydlynw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd



C84 Pwy sy'n gyfrifol am gydlynw addysg perthnasoedd a rhyw (RSE) yn yr ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (148).


Ffig. 53 Grwpiau sy'n cyfrannu at addysgu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd



C85 Pwy sy'n cyfrannu at addysgu addysg perthnasoedd a rhyw (RSE)?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (148).


Ffig. 54 Darparwyr gwasanaeth galw heibio ar gyfer iechyd rhywiol



C88 Pwy sy'n darparu'r gwasanaeth?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd â gwasanaeth galw heibio ar y safle i roi cyngor ar iechyd rhywiol yn benodol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (74).


Ffig. 55 Ysgolion â pholisïau ysgrifenedig sy'n cynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol



C90 A oes gan eich ysgol bolisi ysgrifenedig sy'n cynnwys trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Polisi sy'n ymwneud â staff (117), Polisi sy'n ymwneud â myfyrwyr (120).


Ffig. 56 Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn 2017/18 - 2018/19



C91 A yw eich ysgol wedi defnyddio unrhyw un o'r canlynol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn ystod y ddwy flynedd academiaidd ddiwethaf (2017/8 a 2018/19)?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (128).

Ffig. 57 Hyfforddiant staff ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn 2017/18 - 2018/19



C92 A gafodd eich ysgol unrhyw hyfforddiant ar y materion canlynol yn ystod y ddwy flwyddyn academiaidd flaenorol (2017/8 a 2018/19)?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Sut i ymateb i ddatgeliad gan fyfyrwr (143), Sut i ymateb i arwyddion ohono (140), Adnabod ei arwyddion (141).

2.9 Darpariaeth gwasanaeth iechyd

Crynodeb o ganfyddiadau


- Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion fod ganddynt **nyrs** y GIG yn unig (83%), roedd wyth y cant yn unig o ysgolion yn cyflogi'u nyrs eu hunain ac roedd un y cant yn cyflogi nyrs y GIG a'u nyrs eu hunain (gweler Ffigur 58).
- Mewn ysgolion â darpariaeth nyrsio, **yn fwyaf cyffredin, roedd nyrs ar y safle** 1-2 waith yr wythnos (65% o ysgolion). Wyth y cant yn unig o ysgolion oedd â nyrs ar y safle ac ar gael i fyfyrwyr bob dydd (gweler Ffigur 59).
- Y **dasg a wnaed yn fwyaf cyffredin gan nyrsys ysgol y GIG**⁴ mewn ysgolion â darpariaeth nyrsio'r GIG oedd rhoi cyngor a chymorth unigol i fyfyrwyr yn achlysurol (78%) (gweler Ffigur 60).
- Roedd dros bedair o bob pum ysgol (87%) yn cynnig **gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol** o leiaf unwaith yr wythnos (gweler Ffigur 61).
- Ym mwyafrif yr ysgolion (96%), roedd myfyrwyr yn **cael gwybod am wasanaethau cwnsela cyfrinachol, lleol eraill** y gallent eu defnyddio. Yn yr ysgolion hyn, roedd bron i naw o bob deg ohonynt (88%) wedi trefnu bod myfyrwyr yn gallu troi at y gwasanaethau hyn yn ystod oriau ysgol.
- Roedd gan fwy na thair o bob pedair ysgol (77%) **unigolyn a enwir yn eu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) lleol y gallent gysylltu ag ef/hi i gael help a chymorth**. Nid oedd unigolyn a enwir gan ychydig yn llai nag un o bob pedair ysgol (23%).
- Roedd dros draean (36%) o ysgolion **mewn cysylltiad â'u CAMHS lleol** yn wythnosol, 19% ohonynt bob pythefnos a 24% ohonynt yn fisol (gweler Ffigur 62).
- Roedd mwyafrif yr ysgol (84%) a oedd mewn cysylltiad â'u CAMHS lleol yn cael cyngor dros y ffôn. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda CAMHS mewn dros hanner o ysgolion (54%) (gweler Ffigur 63).
- O'r ysgolion a oedd yn gallu **atgyfeirio i CAMHS**, cafwyd cynnydd sylweddol yn y gyfran a oedd yn gwneud 11 atgyfeiriad neu fwy y flwyddyn (36% yn 2017/18 o gymharu â 49% yn 2018/19) (gweler Ffigur 64).
- Roedd pob ysgol a oedd wedi atgyfeirio i CAMHS wedi galluogi o leiaf rai o'u **myfyrwyr i gael at driniaeth**, ond un o bob deg yn unig (9%) ddywedodd fod yr holl fyfyrwyr a atgyfeiriont wedi cael at driniaeth.

⁴ Sylwch, wrth gymharu'r ffigur hwn â blynyddoedd blaenorol: gofynnodd Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2018 am dasgau a wnaed gan nyrsys ysgol, ond mae'r cwestiwn yn y don hon yn gofyn am nyrsys ysgol y GIG yn unig.

- Dywedodd ychydig dros draean o ysgolion (36%) eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu **cefnogi gan eu CAMHS lleol**, ond dywedodd ychydig dros chwarter ohonynt (26%) nad oeddent yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi (gweler Ffigur 65).
- Ar y cyfan, roedd gan bron i naw o bob deg ysgol (87%) **seicolegydd addysg ar gael yn yr ysgol**, ond roedd y seicolegydd ar gael unwaith yr wythnos ar y mwyaf ac ar gais yn unig mewn 69% o ysgolion (gweler Ffigur 66).

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)
C97 A yw'r disgyblion yn cael gwybod am wasanaethau cwnsela cyfrinachol a lleol eraill y gallant eu defnyddio?	Pob ysgol a ymatebodd (143)
C98 A oes modd i ddisgyblion fynd at wasanaethau o'r math yn ystod oriau ysgol?	Pob ysgol lle y caiff myfyrwyr wybod am wasanaethau cwnsela cyfrinachol, lleol eraill y gallant eu defnyddio (134)
C99 A oes unigolyn a enwir yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) lleol y gallwch gysylltu ag ef/hi i gael help a chymorth?	Pob ysgol a ymatebodd (136)
C103 Pan wnaethoch chi gyfeiriadau, a gafodd y myfyriwr/myfyrwyr fynediad at driniaeth?	Pob ysgol a wnaeth o leiaf un atgyfeiriad i'w CAMHS lleol yn ystod y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf (76)


Ffig. 58 Math o nyrs ysgol



C93 A oes gan eich ysgol nyrs ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (144).


Ffig. 59 Argaeledd nyrs ysgol i fyfyrwyr ar y safle



C94 Pa mor aml y mae'r nyrs ar safle'r ysgol ac ar gael i'r disgyblion?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd â nyrs ysgol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (131).


Ffig. 60 Tasgau a wneir gan nyrsys ysgol y GIG



C95 Pa rai o'r canlynol y mae nyrs ysgol y GIG yn eu gwneud yn eich ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd â nyrs ysgol y GIG, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (122).


Ffig. 61 Argaeledd gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol



C96 Pa mor aml y mae gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol ar gael i fyfyrwyr?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (143).


Ffig. 62 Amllder y cyfathrebu rhwng yr ysgol â'r CAMHS lleol



C100 Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, tua pha mor aml y mae eich ysgol wedi cyfathrebu â'ch CAMHS lleol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (135).


Ffig. 63 Cyfathrebu â CAMHS



C101 Sut cyflawnwyd y cyfathrebu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd wedi cyfathrebu â'u CAMHS lleol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (132).


Ffig. 64 Atgyfeiriadau i CAMHS yn y ddwy flynedd ddiwethaf



C102 Faint o gyfeiriadau i'ch gwasanaeth CAMHS lleol ydych chi wedi'u gwneud er mwyn eu hasesu yn ystod y ddwy flynedd academiaidd ddiwethaf (2017/18 a 2018/19) ar gyfer myfyrwyr unigol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n gallu atgyfeirio, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. 2017/18 (77), 2018/19 (78).


Ffig. 65 Y graddau y mae ysgolion yn teimlo bod CAMHS yn eu cefnogi



C104 I ba raddau yr ydych chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich cefnogi gan eich CAMHS lleol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (129).

Ffig. 66 Argaeledd seicolegydd addysg yn yr ysgol



C105 Oes seicolegydd addysg ar gael i fyfyrwyr yn yr ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (140).

2.10 Atodiad 2020


2.10a Bwyd a choginio

Crynodeb o ganfyddiadau

- Roedd uwch dimau rheoli **yn adolygu p'un a yw'r bwyd a ddarperir yn yr ysgol yn bodloni'r rheoliadau Bwyta'n lach mewn Ysgolion** mewn 89% o ysgolion, gyda 52% ohonynt yn adolygu ac yn cytuno ar fwydlenni a'r arlwygo a gynigir o leiaf unwaith y flwyddyn, a 46% ohonynt yn cael adroddiadau gan ddarparwr y Prydau Ysgol.
- Roedd gan dair o bob pum ysgol (59%) **dystysgrif gydymffurfio gyfredol â Rheoliadau Bwyta'n lach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013**. Dywedodd traean o ysgolion (34%) nad oeddent yn gwybod p'un a oedd gan eu hysgol y dystysgrif hon. Mewn pedair o bob pum ysgol (80%), roedd yr **uwch dîm rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd â darparwr arlwygo'r ysgol** (ystyr 'rheolaidd' yw yn flynyddol o leiaf), ac mewn hanner o ysgolion (54%) roeddent yn cyfarfod bob tymor neu fwy. 15% ohonynt yn unig oedd yn cyfarfod â darparwr arlwygo'r ysgol pan roedd problem yn codi ac nid oedd pump y cant ohonynt yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd.
- Yn gyffredinol, roedd bron i dair o bob pump o ysgolion (57%) yn **adolygu data gwerthiannau** yn flynyddol, gyda 49% o ysgolion yn gwneud newidiadau ym mlynnyddoedd ysgol 2017/18 neu 2018/19 i gynyddu nifer y myfyrwyr oedd yn dewis opsiynau iachach.
- Roedd mwyafrif yr ysgolion **yn addysgu sgiliau coginio ymarferol** trwy wersi technoleg bwyd ym Mlwyddyn 7 (87%), ym Mlwyddyn 8 (89%) ac ym Mlwyddyn 9 (82%) (gweler Ffigur 67).
- Mewn ysgolion a oedd yn cynnig gwersi coginio ymarferol i Flynyddoedd 7 i 9, roedd tua dwy o bob pump ohonynt yn treulio 10 awr neu lai yn flynyddol ar y gwersi hyn ym Mlynnyddoedd 7 i 9 (41% ym Mlwyddyn 7, 41% ym Mlwyddyn 8 a 38% ym Mlwyddyn 9) (gweler Ffigur 68).
- Cafwyd **barn myfyrwyr am y bwyd a ddarperir** ym mhob ysgol, yn fwyaf cyffredin trwy drafodaethau yn y cyngor ysgol (96%) a thrwy arolygon myfyrwyr (60%) (gweler Ffigur 69). Ni chafwyd **adborth gan rieni** mewn bron i chwarter o ysgolion (23%). Lle y cafwyd hwn, roedd yn digwydd yn fwyaf cyffredin trwy drafodaethau mewn cyfarfodydd Llywodraethwyr, gan gynnwys rhiant-lywodraethwyr (36%), a thrwy gŵynion (34%) (gweler Ffigur 70).

Cwestiwn (heb siart)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)
C106 Sut mae uwch dîm rheoli eich ysgol yn adolygu a yw darpariaeth bwyd yr ysgol yn diwallu Rheoliadau Bwyta'n lach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013?	Pob ysgol a ymatebodd (123)
C107 Oes gan eich ysgol dystysgrif gyfredol sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n lach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013?	Pob ysgol a ymatebodd, gan gynnwys y rhai a ddywedodd 'Ddim yn gwybod' (133)
C108 Pa mor aml mae aelod o'r uwch dîm rheoli yn cwrdd â darparwr arlwy'o'r ysgol?	Pob ysgol a ymatebodd (123)
C109 Pa mor aml ydych chi'n adolygu'r dewisiadau sy'n cael eu gwneud gan fyfyrwyr, hynny yw, trwy adolygu data gwerthiant, ac yn dilyn adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19, a wnaeth yr ysgol unrhyw newidiadau er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n dewis opsiynau iachach?	Pob ysgol a ymatebodd (100)


Ffig. 67 Sgiliau coginio ymarferol yn y cwricwlwm ffurfiol



C110 Pa grwpiau blwyddyn sy'n cael cyfle i ddysgu sgiliau coginio ymarferol fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol a ble maen nhw'n cael eu haddysgu?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb: Blwyddyn 7 (142), Blwyddyn 8 (142), Blwyddyn 9 (142).


Ffig. 68 Faint o amser y flwyddyn a glustnodir i sgiliau coginio ymarferol yn y cwricwlwm ffurfiol



C111 Oddeutu faint o oriau'r flwyddyn o wersi coginio ymarferol a ddarperir i fyfyrwyr fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cynnig sgiliau coginio ymarferol yn y cwricwlwm ffurfiol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb: Blwyddyn 7 (106), Blwyddyn 8 (108), Blwyddyn 9 (103).


Ffig. 69 Dulliau o gael barn myfyrwyr am y bwyd a ddarperir



C112 Sut ydych yn casglu safbwyntiau'r myfyrwyr am ddarpariaeth bwyd yn yr ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (142).

Ffig. 70 Dulliau o gael barn rhieni am y bwyd a ddarperir



C113 Sut ydych chi'n casglu adborth wrth rieni am ddarpariaeth bwyd yr ysgol?


Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (134).

2.10b Cwricwlwm i Gymru 2022

Crynodeb o ganfyddiadau

- Y weithred a enwyd amlaf ar gyfer **paratoi i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd** oedd cynllunio ar gyfer addysgu iechyd a lles yn drawsgwricwlaidd (73%), yna hyfforddiant staff (71%) (gweler Ffigur 71).
- Mewn ysgolion a oedd yn cymryd camau i baratoi i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd, yr uwch dîm rheoli, yna staff addysgu eraill, oedd yn cymryd rhan yn hyn amlaf (50% a 39% yn y drefn honno yn dweud eu bod 'yn cymryd rhan sylweddol yn hyn'). Teuluoedd a'r gymuned ehangach oedd yn cymryd rhan leiaf (roedd 53% a 51% yn y drefn honno wedi dweud 'dim o gwbl') (gweler Ffigur 72).
- Yn gyffredinol, dywedodd 39% o ysgolion fod eu staff yn teimlo'n barod i **gyflwyno'r dyniaethau** ac roedd 37% ohonynt yn teimlo'n barod i **gyflwyno mathemateg a rhifedd** (gweler Ffigur 73). Roedd staff o leiaf yn teimlo'n barod i gyflwyno iechyd a lles (30%), gwyddoniaeth a thechnoleg (29%) ac ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (28%).


Ffig. 71 Camau a gymerwyd gan ysgolion i baratoi i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd



C114 Beth mae eich ysgol chi'n ei wneud i baratoi i gyflwyno addysg iechyd a lles o fewn y cwricwlwm newydd?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (127).


Ffig. 72 Grwpiau sy'n cymryd rhan mewn paratoi i gyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles



C115 I ba raddau y mae'r grwpiau canlynol wedi bod yn rhan o'r paratoadau i gyflwyno'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn eich ysgol?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cymryd camau i baratoi i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Uwch dîm rheoli (114), Staff addysgu eraill (115), Staff bugeiliol a staff cymorth (113), Myfyrwyr (113), Teuluoedd (110), Y gymuned ehangach (110).

Ffig. 73 Y graddau y mae staff yn teimlo'n barod i gyflwyno'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad



C116 I ba raddau y mae staff eich ysgol yn teimlo'n barod i gyflwyno pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad? (1 = ddim yn barod o gwbl, 5 = wedi paratoi yn llawn).

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb. Y Celfyddydau Mynegiannol (126), Iechyd a Lles (130), Y Dyniaethau (127), Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (126), Mathemateg a Rhifedd (126), Gwyddoniaeth a Thechnoleg (126).

Atodiad

Mae Tabl A1 yn dangos y ffigurau yn adroddiadau 2020 a 2018 sy'n cyflwyno canfyddiadau ar yr un pwnc. Fodd bynnag, dylai darllenwyr sy'n cymharu'r ddau adroddiad nodi y gallai geiriad y cwestiwn a/neu opsiynau'r ymateb amrywio rhwng y ddau arolwg.

Tabl A1: Rhifau'r ffigurau sy'n cyfateb yn adroddiadau 2020 a 2018

Ffigur yn adroddiad 2020	Ffigur yn adroddiad 2018	Ffigur yn adroddiad 2020	Ffigur yn adroddiad 2018
1	1	38	45
2	2	39	46
3	dd/b	40	47
4	4	41	8
5	5	42	9
6	6	43	48
7	7	44	49
8	76	45	50
9	10	46	52
10	11	47	53
11	14	48	54
12	16	49	55
13	dd/b	50	56
14	17	51	57
15	18	52	59
16	19	53	60
17	20	54	61
18	32	55	62
19	33	56	63
20	34	57	64
21	21	58	65
22	22	59	66
23	23	60	67
24	24	61	68
25	25	62	70
26	26	63	71
27	27	64	73
28	28	65	74
29	29	66	75
30	36	67	dd/b
31	37	68	dd/b
32	38	69	dd/b
33	39	70	dd/b
34	40, 41	71	31
35	40, 41	72	dd/b
36	42	73	dd/b
37	44		